



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Y Dull Sectoraidd

Nodyn Esboniadol

Y Dull Sectoraidd

1. Diben

Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r cefndir i'r chwe sector blaenoriaeth a nodir yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*. Mae'n disgrifio'r sectorau ac mae'n cyfeirio at rai ffeithiau a ffigurau allweddol hefyd.

2. Cefndir

Yn 2008, argymhellodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi a Thrafnidiaeth y dylai Adran yr Economi a Thrafnidiaeth alinio ei gweithgareddau i sectorau allweddol o economi Cymru er mwyn gwella cystadleurwydd Cymru ar lwyfan y byd. Roedd y Grŵp yn credu y gallai'r Adran wella ei ffocws strategol, cynyddu ei mäs critigol er mwyn gallu buddsoddi a gwella'r modd y mae'n cydgysylltu a'i rheolaeth strategol trwy wneud y canlynol:

- Cynnwys llai o weithgareddau a sectorau
- Gweithredu llai o fentrau a chynlluniau
- Symleiddio'r broses o ddarparu atebion a dulliau ymyrryd sy'n cael eu harwain gan y sector cyhoeddus.

Cynhaliodd y Grŵp adolygiad cynhwysfawr o dueddiadau macro a thechnolegol sy'n debygol o gael dylanwad pwysig ar lefel fyd-eang ar ddatblygu economaidd. Yn dilyn dadansoddi data sectoraidd ar lefel Cymru, y DU ac ar lefel fyd-eang, nodwyd pedwar sector ar ddeg oedd wedi dangos twf uwch na'r cyfartaledd, sectorau yr amcanestynnwyd y byddant yn perfformio'n dda ymhell i'r dyfodol a sectorau sy'n bwysig iawn i Gymru.

Nodwyd bod y sectorau un ai'n sectorau craidd neu'n sectorau galluogi (sectorau sydd o bwysigrwydd sylweddol i economi Cymru), sectorau Haen 1 (sectorau sydd o bwysigrwydd strategol i Gymru) a sectorau Haen 2 (sectorau sydd o bwysigrwydd i Gymru ac i'r economi fyd-eang ond sy'n llai strategol o ran datblygu mantais gystadleuol Cymru). Rhannwyd y pedwar sector ar ddeg fel a ganlyn:

Sectorau Craidd neu Sectorau Galluogi

- Ynni
- Rheoli amgylcheddol
- Telathrebu a TGCh

Haen 1

- Biowyddoniaeth
- Iechyd
- Y Gwasanaethau ariannol/cynnyrch a gwasanaethau proffesiynol
- Y diwydiannau creadigol
- Moduro
- Awyrofod

Haen 2

- Adeiladu
- Bwyd
- Amddifyn
- Manwerthu
- Hamdden a thwristiaeth.

Aeth y Grŵp ati i ailedrych ar y gwaith o roi blaenoriaeth i'r sector fel rhan o raglen waith amrywiol a wnaed yn sgil y dirywiad economaidd. Gan nad oedd hi wedi bod yn bosibl rhagweld natur y dirywiad, nododd y Grŵp ei bod hi wedi bod yn angenrheidiol adolygu'r argymhellion a'r cyngor a ddarparwyd.

Fel rhan o'r adolygiad, ystyriwyd y sylfeini y seiliwyd yr argymhellion a'r cyngor arnynt a phenderfynwyd, oherwydd y seiliwyd y dadansoddiad ar dueddiadau eang a hanfodion hirdymor sylfaenol, bod y blaenoriaethau'n parhau i fod yn ddilys. Nododd y Grŵp bod rhoi blaenoriaeth a chyflawni gwerth am arian yn bwysicach nag erioed. Penderfynodd y Grŵp y byddai canolbwyntio ar gryfderau'r sector er mwyn cynyddu cystadleurwydd Cymru yn rhyngwladol yn cyflawni canlyniadau mwy sylweddol i Gymru a byddai'n golygu bod economi Cymru yn fwy amrywiol ac yn fwy cynaliadwy hefyd.

Cadarnhaodd yr Adran ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r dull sectoraidd, gan nodi y byddai targedu'r sectorau allweddol yn creu cyfleoedd i Gymru yn ystod yr adferiad economaidd.

Yn 2009, cytunodd y Gweinidogion y dylid defnyddio cyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Ymchwil a Datblygu ar gyfres o feysydd blaenoriaeth er mwyn rhoi'r cyfle i Gymru berfformio'n well na gweddill y DU a gwneud y mwyaf o'r effaith economaidd. Nododd y blaenoriaeth ar gyfer Ymchwil a Datblygu gryfderau o fewn sylfaen fusnes Cymru, perfformiad yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil a chyfleodd i gael cyllid allanol gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg a'r Comisiwn Ewropeaidd (FP7).

3. Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd

Yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*, mireiniwyd pedwar sector ar ddeg Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn grŵp sydd â mwy o ffocws iddo yn cynnwys chwe sector trwy roi blaenoriaeth ac ailgrwpio'r ddau grŵp o sectorau uchaf o ran blaenoriaeth - y sectorau hynny a nodwyd fel sectorau craidd neu sectorau galluogi a sectorau sy'n strategol bwysig. Gwnaed hyn oherwydd y cydnabuwyd yn ystod y rhaglen waith bod gormod o sectorau sy'n eu rhwystro rhag gallu mynd ati i ddatblygu'r economi'n effeithiol.

Dyma'r chwe sector:

- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Ynni a'r amgylchedd
- Deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu
- Y diwydiannau creadigol
- Gwyddorau bywyd
- Gwasanaethau ariannol a gwasanaethau proffesiynol.

O ganlyniad i ailffocysu, erbyn hyn, mae cydberthynas glir rhwng y sectorau blaenoriaeth a nodir yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* a'r meysydd blaenoriaeth Ymchwil a Datblygu a nodwyd.

Rhoddwyd pwyslais ar sectorau sy'n 'alluogwyr' o fewn yr economi ehangach, er enghraifft, creu cyfleoedd i ddatblygu TGCh, creu swyddi gwyrdd, defnyddio adnoddau mewn dull effeithiol a symud i economi carbon isel.

4. Deall y sectorau

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn sefydlu paneli sectorau preifat a'u cylch gwaith fydd cynghori'r Gweinidogion ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael i'r sectorau ac anghenion y sectorau a byddant yn helpu i ddatblygu polisiau ac i roi cyngor ar sut i fynd ati i roi'r polisiau hyn ar waith, yn bennaf trwy gynlluniau gweithredu ar gyfer y sector. Er mwyn sicrhau y cyflawnir manteision y dull sectoraidd, sefydlir timau sector integredig a byddant wedi'u lleoli ledled Cymru. Bydd y Paneli, gyda chefnogaeth timau'r sectorau, yn datblygu dealltwriaeth Llywodraeth y Cynulliad o'r sectorau ac yn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i'r sectorau.

Mae *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*, yn cynnwys y disgrifiadau canlynol ar gyfer y chwe sector:

Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Mae Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu'n rym mawr o ran datblygiad economaidd a'r newid cymdeithasol ehangach. Yn ogystal â bod yn sector diwydiant pwysig, mae'r defnydd o TGCh yn sbardun i gynhyrchiant a chystadleurwydd ar draws yr economi gyfan. Mae TGCh yn galluogi mwy o fasnachu a globaleiddio, gan greu byd 'mwy gwastad' sydd â mwy o gystadlu a mwy o gyfl eoedd i fusnesau Cymru. Bydd TGCh hefyd yn chwarae rhan bwysig i'n helpu ni i fodloni heriau newid hinsawdd drwy reoli adnoddau'n effeithlon a chreu gridiau deallus.

Mae'r sector TGCh yng Nghymru'n cwmpasu electroneg, meddalwedd a gwasanaethau, gyda chymysgedd iach o fusnesau rhyngwladol a chynhenid. Cefnogir hyn gan gymuned ymchwil weithredol yn y prifysgolion a chysylltiadau cryf rhwng academia a busnes megis y Sefydliad Gwyddor Bywyd yn Abertawe.

Ynni a'r amgylchedd

Mae diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol yn rhan o'n hymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy ac mae hyn yn ffurfi o clwstwr busnes pwysig yn ei hunan. Mae hanes hir o adfer yr amgylchedd a'i reoli yng Nghymru a chydabyddiaeth fyd-eang i hyn.

Fel man cychwyn y chwyldro diwydiannol, fe wnaeth Cymru arwain y byd ym maes glo a dur: bellach mae mewn sefyllfa dda i gymryd rôl arweiniol o ran

carbon isel a ffynonellau ynni cynaliadwy fel y gwynt, y llanw, trydan dwr a biomas. Gan feddu ar adnoddau naturiol di-ri a busnesau a all fanteisio ar y cyflwr, mae hwn yn sector sydd â photensial twf cadarn ar draws ynni carbon isel, effeithlonrwydd ynni, storio ynni a'i seilwaith, rheoli llygredd, rheoli amgylcheddol, ymchwil ac ymgynghoriaeth. Yn ddiweddar mae ymchwil i dechnolegau hydrogen, sy'n torri tir newydd, wedi arwain at Dde Cymru'n cael ei henwi fel Ardal Economaidd Carbon Isel y DU ar gyfer tanwydd amgen i drafnidiaeth.

Deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu

Mae'r sector deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu'n cynnwys cyfansoddiad, strwythur a phriodweddau deunyddiau a'u cymwysiadau penodol, ac felly gellid honni ei bod ar fl aen y gad o ran arloesi technolegol. Yn ogystal â hyn mae'n darparu gweithgynhyrchu gwerth uchel sy'n seiliedig ar wybodaeth, sgiliau a dylunio lefel uchel ac yn arwain at nwyddau a phrosesau cymhleth yn dechnegol.

Mae pwysigrwydd y sector yn seiliedig ar weithgareddau sy'n ategu datblygiad nwyddau a dyfeisiadau newydd yn y dyfodol i'r rhan fwyaf o'r sectorau eraill. Mewn gwledydd lle mae economïau cost uchel datblygedig, fel ein gwlad ni, mae gweithgynhyrchu wedi gorfod newid yn sylfaenol a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae'r sector hwn yn cynnig y cyfle i wireddu manteision strategol a chyfl ogaeth gweithgynhyrchu ac ar yr un pryd i barhau i fod yn gystadleuol yn fydeang. Mae'r sector yn gwneud ymchwil sydd ar fl aen y gad gydag adrannau peirianeg mewn prifysgolion yng Nghymru. Mae'r farchnad ar gyfer nwyddau a gwasanaethau gwerth uchel sy'n gysylltiedig â deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu yn debygol o gynyddu'n sylweddol, yn arbennig y rhai a gynhyrchwyd i fodloni safonau sy'n fythol esblygu ac yn amgylcheddol fanwl. Yng Nghymru mae ein cryfderau penodol yn cynnwys y modurrol, awyrofod ac electroneg.

Diwydiannau creadigol

Mae'r sector Diwydiannau creadigol mewn sefyllfa dda i gyflawni mwy o fomentwm drwy weithredu'r argymhellion yn Adolygiad Hargreaves (Mawrth 2010). Bydd y camau hyn yn miniogi'r meddwl strategol, yn egluro'r atebolrwydd ac yn gwella ein sianeli cyfathrebu gyda busnesau creadigol. Eu nod yw sicrhau bod Cymru'n datblygu ei sefyllfa gystadleuol yn rhyngwladol yn wyneb ymdrechion cryf yn y sector hwn oddi wrth wledydd eraill a rhanbarthau'r DU.

Gwyddorau bywyd

Mae'r sector gwyddorau bywyd yn un amrywiol, byd-eang, ac yn cael ei yrru gan ymchwil, ac mae nodweddion y sector yn newid yn gyson wrth i issectorau ymddangos a datblygu. Mae'r sector yn cwmpasu busnesau fferyllol, biotechnoleg a thechnoleg feddygol, gyda gweithgareddau eang sy'n cynnwys ymchwil, profi on, gweithgynhyrchu a darparu gwasanaethau arbenigol.

Yng Nghymru, mae gan y sector sylfaen gref o fewn y prifysgolion a chysylltiadau â hwy, a gallwn hawlio meysydd perfformiad o safon fyd-eang. Mae tueddiadau byd-eang bob amser wedi chwarae rhan bwysig wrth bennu datblygiad y sector, ac mae'r newidiadau o ran dulliau gweithredu gofal iechyd, demograffeg a datblygiadau technegol yn rhai o nifer o ffactorau arwyddocaol sy'n ei gwneud yn anodd rhagweld sut y bydd y sector yn edrych yn y dyfodol.

Beth bynnag, mae'n amlwg y bydd y sector gwyddorau bywyd, ac yn benodol rai o'i is-sectorau, yn debygol o fod yn farchnadoedd byd-eang arwyddocaol gyda photensial cryf i dyfu. Ymysg y cryfderau penodol yng Nghymru mae gwella clwyfau, dyfeisiadau a thechnoleg feddygol, diagnosteg a threialu clinigol.

Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol

Wrth i Gymru gynyddu ei chyfran o gyfl ogaeth mewn gwasanaethau, gwelwyd twf sylweddol yn y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. O ran gwasanaethau ariannol, mae twf mewn yswiriant, rheoli asedion, rheoli cronfeydd a chwmnïau pensiynau wedi ymuno â bancio manwerthu traddodiadol. Mae hwn yn sector bywiog ac arloesol sydd ag enwau brodorol cyfarwydd yn cystadlu gydag enwau rhyngwladol o'r radd fl aenaf. Mae cyfl eoedd sylweddol am dwf pellach yn y maes hwn wrth i ailstrwythuro ddigwydd i ddiwydiant bancio'r DU.

Mae mwy o contractio allanol mewn AD, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau corfforaethol eraill wedi creu cyfl eoedd newydd mewn gwasanaethau proffesiynol lle mae presenoldeb Cymru'n tyfu. Mae'r ffaith fod gweithlu crefftus ar gael yn hanfodol i'r sector hwn.

5. Rhai ffeithiau a ffigurau

Gyda'i gilydd, mae'r chwe sector blaenoriaeth yn cyfrif am oddeutu un rhan o dair o gyflogwyr y sector preifat yng Nghymru o ran trosiant busnes a chyflogaeth o'i gymharu â dros dwy ran o dair o economi'r sector preifat sy'n cael ei gynrychioli gan y pedwar sector ar ddeg a argymhellwyd yn wreiddiol gan y Grŵp.

Mae'r chwe sector wedi dangos twf uwch na'r cyfartaledd ar lefel y DU, fe amcanestynnwyd y byddant yn perfformio'n dda ymhell i'r dyfodol ac mae'r sectorau hyn yn bwysig iawn i Gymru o ran cyflogaeth.

Yn ogystal â bod â'r potensial i dyfu, mae'r chwe sector wedi dangos twf uchel yn y gorffennol. Er enghraifft, rhwng 2003 a 2009, dengys y Gofrestr Busnes Rhyngadrannol bod nifer y staff a lefel y trosiant wedi cynyddu'n gynt yn y sectorau blaenoriaeth nag yn y sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth.

Fel arfer, mae'r sectorau'n cynnwys swyddi mwy medrus na sectorau cyffredin. Er bod ychydig dros draean o swyddi yn y sector nad ydynt yn flaenoriaeth yn y tri chategori uchaf o'r categorïau galwedigaethol sef Rheolwyr, Swyddogion Proffesiynol, Swyddogion Proffesiynol Cysylltiol a phobl sydd mewn swyddi

Technegol, dengys yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2009 bod dros hanner o'r swyddi ym mhob un o'r sectorau blaenoriaeth yn y categorïau hyn.

Fel arfer, mae'r sectorau'n cynnwys swyddi sydd â chyflogau uwch na'r cyfartaledd. Wrth ystyried y sector cyfan, dengys yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion bod y cyflogau yn y sectorau blaenoriaeth ar gyfer staff llawnamser oddeutu ddeg y cant yn uwch na swyddi yn y sectorau nad ydynt yn flaenoriaeth yn 2009.